



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Cymorth i Ferched Cymru **Disgrifiad Swydd**

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

| | |
|----------------|---|
| Teitl y swydd: | Eiriolydd Llinell Gymorth |
| Yn atebol i: | Arweinydd Tîm y Llinell Gymorth |
| Cyfrifol am: | Gwirfoddolwyr fel y cyfarwyddir |
| Lleoliad: | 37.5/25/Zero oriau yr wythnos Mae'r Llinell Gymorth ar agor 24 y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn felly mae gweithio hyblyg a'r gallu i weithio oriau anghymdeithasol yn ofynion y swydd (h.y. mae nosweithiau, dros nos a phenwythnosau yn rhan o'r wythnos waith) |
| Cyflog | £25,927 y flwyddyn pro rata |
| Diben y Swydd: | <ul style="list-style-type: none">• Darparu gwasanaeth Llinell Gymorth cyfrinachol gyda gwybodaeth a chyfeirio i fenywod, dynion, plant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod, ac i'r rheini sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan;• Gwerthuso ac ymateb i angen a lleihau risg i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod;• Cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at wasanaethau cymorth priodol gan wneud defnydd o system llefydd gwag Llwybrau at Gymorth Cymorth i Ferched a llwybrau atgyfeiriol eraill lle bo angen;• Cynnal gwybodaeth gywir ar alwadau a dderbynnir sy'n cydymffurfio â chyfrinachedd a Deddf Diogelu Data 1998; Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. <p>Lleolir yn swyddfa Llinell Gymorth Cymorth i Ferched Cymru ger Caernarfon.</p> |

Mae'r swydd hon yn agored i fenywod yn unig gan y pennir bod bod yn fenywaidd yn wir ofyniad galwedigaethol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Atodlen 9, Rhan 1.



Llinell Gymorth **Live Fear**
Byw Heb Ofn **Free Helpline**

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Mae'r NOS canlynol yn ymwneud ag agweddau craidd y disgrifiad swydd hwn a bydd rhaid tystio iddynt ar adeg recriwtio neu drwy ddysgu a datblygu yn y swydd.

Ni all y disgrifiad swydd hwn gwmpasu pob problem neu dasg a allai godi o fewn cwmpas y swydd. Bydd disgwyl i'r deiliad swydd ymgymryd â dyletswyddau eraill o bryd i'w gilydd sy'n fras yn gyson â'r dyletswyddau a nodir.

| NOS | Crynodeb o'r Swydd |
|-------|--|
| GK101 | Darparu mynediad at wybodaeth i ddioddefwyr/goroeswyr trais/cam-drin domestig a/neu rywiol |
| GK102 | Cyflwyno ymyriadau sy'n gwella diogelwch dioddefwyr/goroeswyr trais/cam-drin domestig a/neu rywiol. |
| GK104 | Grymuso dioddefwyr/goroeswyr trais/cam-drin domestig a/neu rywiol i ymadfer ac adennill rheolaeth ar eu bywyd. |
| GK105 | Eiriol ar ran dioddefwyr/goroeswyr trais/cam-drin domestig a/neu rywiol. |
| GK202 | Trefnu llety diogel i ddioddefwyr/goroeswyr trais/cam-drin domestig a/neu rywiol. |
| GK401 | Ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch trais/cam-drin domestig a/neu rywiol yn sensitif |
| GK402 | Sefydlu ac ymdrin â gofynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch trais/cam-drin domestig a/neu rywiol. |

| Gofynion Mewnol | |
|-----------------|--|
| | Deall a gweithio o fewn polisiau, safonau a gweithdrefnau sy'n ofynnol dan y gyfraith, Cymorth i Ferched Cymru, a chyllidwyr |
| AE1 | Cynnal a datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a gallu eich hun |

| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | |
|----------------------------|---|
| AA1 | Hyrwyddo cydraddoldeb a rhoi gwerth ar amrywiaeth |

| Iechyd a Diogelwch | |
|--------------------|--|
| AF1 | Sicrhau bod eich gweithredoedd chi'n lleihau peryglon i Iechyd a Diogelwch |

| Uned/elfen NOS cyfeirnod meini prawf perfformiad | MEINI PRAWF PERFFORMIO: Swyddogaethau a thasgau allweddol Gweithiwr Cymorth y Llinell Gymorth |
|--|--|
| GK101.1 | Darparu mynediad i alwyr / goroeswyr at wybodaeth am gam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod |
| GK101.1.1 | Sefydlu ac asesu'r anghenion a gyflwynir a'r wybodaeth a geisir gan oroeswyr. |



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

| | |
|------------|--|
| GK101.1.2 | Nodi ffynonellau priodol a pherthnasol o wybodaeth, a chyrcu'r rhain lle bo angen, yn unol â gweithdrefnau Cymorth i Ferched Cymru. |
| GK101.1.3 | Nodi, lle bo angen, asiantaethau eraill y gellid atgyfeirio galwyr / goroeswyr atynt am yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen, a darparu'r manylion cyswllt perthnasol yn gywir. |
| GK104.1 | Grymuso goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod i ymadfer ac adennill rheolaeth dros eu bywydau. |
| GK104.1.8 | Gweithio gyda goroeswyr i nodi ffynonellau o gymorth a chamau y gallant eu cymryd i fynd i'r afael â'r cam-drin a'r risgiau cysylltiedig. |
| GK105.1 | Eiriol ar ran goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod. |
| GK105.1.5 | Eiriol ar ran goroeswyr, gan gynrychioli eu barn a'u dymuniadau perthnasol yn gywir i asiantaethau priodol, yn unol â chynlluniau eriolaeth a gytunwyd. |
| GK105.1.8 | Cyd-drafod gydag asiantaethau ar ran goroeswyr lle bo angen ac yn briodol i wireddu eu hanghenion a'u hawliau. |
| GK105.1.10 | Sicrhau bod diogelwch, iechyd a llesiant goroeswyr yn ganolog yn y broses eiriol. |
| GK202 | Trefnu llety diogel i oroeswyr cam-drin, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a'u teulu fel bo'n briodol. |
| GK202.1 | Ymgysylltu â goroeswyr i bennu eu gofynion llety. |
| GK202.1.1 | Casglu ac asesu gwybodaeth berthnasol sydd ar gael ynghylch manylion personol y dioddefwr, ynghyd â'i sefyllfa llety cyfredol a risgiau cysylltiedig i ddiogelwch, iechyd a lles a gofynion dilynol am lety. |
| GK202.1.4 | Archwilio a chytuno gyda goroeswyr beth yw eu hanghenion llety a chymorth cysylltiedig, gan ddarparu cyngor perthnasol a chyfredol. |
| GK202.1.8 | Darparu'r holl wybodaeth berthnasol er mwyn i'r holl oroeswyr allu gwneud dewis gwybodus ynghylch y dewis(iadau) a ffefrir, gan sicrhau bod y dewis(iadau) yn berthnasol ac yn ymarferol i'r unigolyn. |
| GK202.2 | Cynorthwyo darparwyr llety a gwasanaethau eraill i gefnogi goroeswyr. |
| GK202.2.1 | Gyda'u cydsyniad ac yn unol â pholisïau Cymorth i Ferched Cymru, trafod amgylchiadau ac anghenion perthnasol goroeswyr gydag asiantaethau perthnasol a darparwyr llety a gwasanaethau eraill. |



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

| | |
|------------|---|
| GK202.2.2 | Trafod agweddau perthnasol ar amgylchiadau goroeswyr sy'n effeithio ar y cymorth sydd i'w ddarparu gyda darparwyr priodol, gan gynnal cyfrinachedd fel y cytunwyd ac yn unol â pholisïau Cymorth i Ferched Cymru. |
| GK202.2.8 | Cyfathrebu â darparwyr yn broffesiynol, gan gydnabod eu rôl fel partneriaid yn y broses. |
| GK202.2.9 | Cynnal cofnodion cywir a chyfredol, gan hysbysu'r holl bartion perthnasol am gynnydd a chanlyniadau, gan sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal yn unol â gofynion statudol, sefydliadol a gwasanaeth. |
| GK401.1 | Ymdrin â galwyr am gam-drin, trais rhywiol and mathau eraill o drais yn erbyn menywod yn sensitif. |
| GK401.1.2 | Cyfathrebu'n glir ac yn gryno, ac ar gyflymder sy'n cyd-fynd ag anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. |
| GK401.1.4 | Defnyddio cwestiynau priodol i sefydlu gwybodaeth berthnasol ynghylch gofynion ac amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaeth. |
| GK401.1.6 | Trin y defnyddiwr gwasanaeth gydag urddas a pharch, gan dderbyn yr hyn maen nhw'n ei ddweud ac osgoi bod yn feirniadol. |
| GK401.1.8 | Gweithredu'n gadarnhaol i ddatblygu a chynnal awyrgylch gadarnhaol gyda'r defnyddiwr gwasanaeth, gan ddangos doethineb, empathi ac ymagwedd agored a gonest. |
| GK401.1.9 | Ymateb yn adeiladol i ddatgeliad cyntaf o gam-drin. |
| GK401.1.16 | Dilyn gweithdrefnau cymeradwy Cymorth i Ferched Cymru drwy gydol yr alwad. |
| GK401.1.17 | Cynnal cofnodion cywir a chyfredol, yn unol â gweithdrefnau Cymorth i Ferched Cymru. |
| GK402.1 | Sefydlu ac ymdrin ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth ynghylch cam-drin, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod. |
| GK402.1.1 | Nodi hunaniaeth y defnyddiwr gwasanaeth lle bo modd, yn defnyddio gweithdrefnau cymeradwy Cymorth i Ferched Cymru a pharchu eu hawl i fod yn ddiennw lle bo angen. |
| GK402.1.3 | Pennu manylion perthnasol ynghylch y defnyddiwr gwasanaeth, yn cynnwys y rhesymau dros eu galwad, eu hamgylchiadau personol a'u canfyddiadau o'u hanghenion. |
| GK402.1.6 | Asesu sefyllfa'r defnyddiwr gwasanaeth a phennu'r ymateb cywir a'r camau cysylltiedig angenrheidiol. |



| | |
|-----------|---|
| GK402.1.7 | Lle bo'n berthnasol, nodi unrhyw amgylchiadau a allai beri gwrthdaro posibl rhwng gofynion y defnyddwyr gwasanaeth a'r ymateb a gynigir, ac ymdrin â'r rhain mewn modd sydd wedi'i gynllunio i hyrwyddo ffordd ymlaen a gytunir a chynnal perthnas gadarnhaol gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. |
| GK402.1.9 | Cymryd camau prydlon a phriodol i ymateb i ddefnyddiwr gwasanaeth rydych chi'n asesu ei bod mewn risg penodol ac uniongyrchol o niwed. |

| Cyffredinol | Prif Elfennau |
|----------------------|---|
| Strategol | <ul style="list-style-type: none"> • Cadw'n gyfredol â datblygiadau polisi a deddfwriaethol rhyngwladol, y DU a Chymru ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod a sut mae hyn yn effeithio ar aelodau a darpariaeth gwasanaethau eraill yng Nghymru. • Ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd i ddiweddarau gwybodaeth a sgiliau ar faterion yn effeithio ar y rheini sy'n dioddef cam-drin ac ar y gwasanaethau a gynigir gan asiantaethau er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus a gwybodaeth gywir a defnyddiol a chefnogaeth i alwyr a gofynion datblygu proffesiynol parhaus, gyda ffocws ar wella sgiliau ymyrryd a gwybodaeth (amlinellir ar lefel 4 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yng Nghymru). • Sicrhau cyfathrebu mewnol effeithlon ac effeithiol, llif gwybodaeth, a meithrin cydweithio rhwng aelodau o'r tîm. • Hyrwyddo gwerthoedd, strategaethau a pholisïau Cymorth i Ferched Cymru i alluogi datblygu ymarfer da mewn polisi ac ymarfer. |
| Sicrhau Ansawdd | <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru'n gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol gyda ffocws penodol ar fframweithiau diogelu, iechyd a diogelwch, sicrhau ansawdd a chydaddoldeb, gan gynnal asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau fel bo angen. • Gweithio o fewn ethos, polisi ac ymarfer Cymorth i Ferched Cymru. • Sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru yn cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau mewn perthynas â diogelu data cofnodion papur a chyfrifiadurol. • Gweithredu a chydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau o ran cyfle cyfartal a sicrhau ymrwymiad parhaus Cymorth i Ferched Cymru i ddarparu cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar waith yn unol â'n gwerthoedd. |
| Cyfrifoldebau Eraill | <ul style="list-style-type: none"> • Ar bob achlysur gwarchod diogelwch a sicrwydd defnyddwyr gwasanaeth, staff, gwirfoddolwyr ac adeiladau, a chyfrinachedd cofnodion a gwybodaeth arall. • Cynnal hawl menywod, plant a phobl ifanc ac asesu'n rhagweithiol anghenion a diogelwch plant a menywod i sicrhau bod unrhyw risgiau/anghenion a nodir yn cael sylw, gyda sylw llawn i'r polisi Diogelu Plant a'r polisi Diogelu Oedolion. • Cadw cofnodion clir a digonol o waith a wnaed, a llunio adroddiadau ar raglenni gwaith a gweithgareddau fel bo'r gofyn gan y Prif Weithredwr • Bod yn gyfrifol am eich dysgu a datblygiad eich hun a chynnal a datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a gallu eich hun. |



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

- Cyfranogi mewn goruchwyllo, hyfforddi a chyfarfodydd eraill fel bo'n berthnasol, a chynorthwyo gyda datblygu gwasanaethau'n unol â chynlluniau datblygu a gytunir.
- Derbyn cyfarwyddyd ar brosiectau a blaenoriaethau gan eich rheolwr llinell, a all amrywio o bryd i'w gilydd.
- Goruchwyllo gwaith gwirfoddolwyr neu staff cymorth dros dro fel bo angen.
- Ymgymryd ffeilio a thasgau gweinyddol sydd eu hangen i gyd-fynd â'r disgrifiad swydd.
- Deall a gweithio o fewn polisiau, safonau a gweithdrefnau sy'n ofynnol dan y gyfraith, Cymorth i Ferched Cymru, a chyllidwyr.
- Gweithio o fewn gwerthoedd, polisi ac arferion Cymorth i Ferched Cymru.
- Sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru'n cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau mewn perthynas â diogelu data, rheoliadau iechyd a diogelwch, a gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Cyfrifol am ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd.

Cymal Amrywiad

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cadw'r hawl, yn dilyn ymgynghori'n llawn a rhesymol gyda'r aelod o staff dan sylw a'i hundeb llafur neu gynrychiolwyr eraill, i amrywio, ychwanegu at neu newid mewn modd arall unrhyw rai o'r telerau ac amodau cyflogaeth sy'n ymwneud â'r swydd hon.

Caiff y disgrifiad swydd hwn ei adolygu'n flynyddol a gallai fod angen ei ddiwygio yn unol â blaenoriaethau'r llwyth gwaith cyfredol gyda chytundeb y Bwrdd Gweithredol a'r Prif Swyddog Gweithredol.

Monitro a Gwerthuso'r Swydd

Caiff perfformiad y deiliad swydd ei fonitro drwy oruchwyliaeth reolaidd gan y rheolwr llinell a'i adolygu ym mhob arfarniad blynyddol. Disgwylir aelodau o'r tîm staff cenedlaethol gynhyrchu adroddiadau gwaith rheolaidd ar gyfer eu monitro a'u hadolygu gan y rheolwr llinell a'r Prif Weithredwr fel bo'r gofyn.

Gwybodaeth Gyffredinol a Thelerau Gwasanaeth

- 6.6 wythnos o wyliau (pro rata) y flwyddyn
 - Mae Cymorth i Ferched Cymru'n cyfrannu swm sy'n cyfateb â 6% o'r cyflog blynyddol i gynllun pensiwn y cwmni yn dilyn cwblhau cyfnod prawf o 6 mis yn llwyddiannus, ac yn amodol ar gyfraniad staff fel rhan o gofrestru awtomatig. Ni thelir goramser; dylid cymryd amser yn rhydd o'r gwaith drwy ymgynghori â'ch rheolwr llinell.



Gweithiwr Cymorth y Llinell Gymorth
Manyleb yr Unigolyn

| Meini prawf | Hanfodol | Dymunol |
|-------------|---|---|
| Cymwysterau | | <ul style="list-style-type: none"> Cymhwyster proffesiynol perthnasol |
| Profiad | <ul style="list-style-type: none"> Gweithio i hyrwyddo cyfle cyfartal | <ul style="list-style-type: none"> Gweithio mewn gwasanaeth cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod neu debyg. Darparu cefnogaeth Llinell Gymorth uniongyrchol i oroeswyr. Gwaith shiftt, ac yn benodol gwaith shiftt nos Diogelu oedolion a phlant Gweithio gyda goroeswyr cam-drin domestig/trais rhywiol. |
| Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> Deall cam-drin domestig/trais rhywiol a'r effeithiau. Dealltwriaeth ragorol o'r gwasanaethau sydd ar gael ar draws sectorau statudol a gwirfoddol a allai gefnogi goroeswyr. | <ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth berthnasol am unrhyw un o'r rhain neu bob un: Budd-daliadau, Materion cyfreithiol, Tai, Diogelu plant ac oedolion gydag anghenion cymorth ychwanegol, Mewnfudo. |
| Sgiliau | <ul style="list-style-type: none"> Gallu darparu cefnogaeth mewn dull yn seiliedig ar anghenion, sy'n ymateb i rywedd ac yn briodol i oed. <p>Cydymffurfio â'r NOS uchod gyda ffocws penodol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sgiliau gwranddo rhagorol a digonedd o empathi, amynedd, a charedigrwydd Doethineb, sensitifrwydd a gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda gwahanol unigolion a sefydliadau Gwydnwch, a'r gallu i drin galwadau a chysylltiadau emosiynol Gallu blaenoriaethu llwyth gwaith ac aml-dasgio mewn amgylchedd gwaith prysur. Sgiliau trefnu da a'r gallu i gofnodi, adrodd ac ymateb i broblemau sy'n effeithio ar wasanaeth y Llinell Gymorth. Gallu meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad Gallu gwneud eich gweinyddu eich hun, gan ddangos sgiliau TG da a'r gallu i ddysgu meddalwedd newydd | <ul style="list-style-type: none"> Gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. |
| Arall | <ul style="list-style-type: none"> Ymrwymiad i ddysgu a datblygu, ac ymgymryd â thasgau newydd gyda brwdfrydedd. Dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal. | |



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

- | | | |
|--|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none">• Chwaraewr tîm gydag ymrwymiad i weithio'n hyblyg er mwyn llenwi'r rota 24 awr (yn cynnwys dros nos/penwythnos/gŵyl banc) a bod yn aelod integredig llawn o'r tîm | |
|--|--|--|